Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

3. Gweithio gydag eraill

3.6 Rhwydweithiau

Mae'r daflen gwybodaeth yma yn gweithio fel cyflwyniad i rwydweithiau. Mae Cyfranogaeth Cymru hefyd wedi cyhoeddi pecyn ar sefydlu neu arolygu rhwydwaith, ac mae hi ar gael o www.participationcymru.org.uk.

Mae rhwydweithiau yn grwpiau o bobl, o'r un meddylfryd sy'n cyfarfod er mwyn trafod thema neu bwnc cyffredin. Maent yn gallu hwyluso'r broses o gynnwys sectorau amrywiol (Trydydd, cyhoeddus a phreifat) a gweithio ar draws ardaloedd daearyddol (e.e. sir neu ranbarth), neu grwpiau diddordeb arbennig (e.e. ffydd, rhyw). Gall rhwydweithiau hefyd cael eu defnyddio fel amgylchedd diogel i brofi sgiliau neu ddulliau sydd wedi eu hennill o hyfforddiant er mwyn cael adborth adeiladol neu ennill hyder.

Ble i ddechrau

Cyn i chi ddechrau sefydlu rhwydwaith, dylech ganfod pa rwydweithiau eraill sydd yn eich ardal, os oes rhai o gwbl. Gellwch ddefnyddio adnoddau fel eich llyfrgell gyhoeddus leol, yr awdurdod lleol a'r cyngor gwirfoddol sirol lleol fel ffynonellau o wybodaeth. Os nad oes rhwydwaith yn bodoli eisoes, dylech ystyried a oes angen un mewn gwirionedd. Bydd sefydlu prawf o angen yn arbennig o bwysig os ydych chi'n bwriadu chwilio am gyllid allanol i redeg a rheoli'r rhwydwaith. Yn olaf, dylech feddwl sut yr ydych chi'n bwriadu cysylltu â darpar aelodau i ofyn iddynt ddod i'r cyfarfod cyntaf. Bydd angen i chi feddwl yn ofalus sut i hysbysebu'r cyfarfod cyntaf, oherwydd bydd yn rhaid iddo ymddangos fel rhywbeth diddorol a gwerthfawr os ydych chi am lwyddo i annog pobl i ddod iddo.

Rhoi ystyriaeth i anghenion y rhwydwaith newydd

Bydd angen rhywfaint o adnoddau ar y rhwydwaith newydd, ac mae'n bwysig bod yn ymwybodol o beth y gallai'r rhain fod ar y dechrau, fel y gall y rhwydwaith gynllunio i roi ystyriaeth iddynt o'r dechrau cyntaf. Dyma rhai anghenion posibl:

- **Cefnogaeth weinyddol**. Er enghraifft, rhywun i reoli'r rhestr gysylltiadau a sicrhau ei bod yn gyfredol. Dylai'r wybodaeth gyswllt, yn ddelfrydol, gynnwys cyfeiriad cartref pob aelod. Os caiff gwybodaeth ei hanfon i gyfeiriad y mudiad, mae'n bosib na fydd yn cyrraedd yr aelod mewn pryd. Rhowch ystyriaeth ofalus i faterion diogelu data wrth ystyried sut y byddwch chi'n rheoli'r wybodaeth hon.

- **Llefydd cyfarfod.** Mae'n bosib y bydd gan eich cyngor gwirfoddol sirol lleol ystafell i'w llogi, neu fel arall gallwch chwilio am leoliadau ar www.venuesinwales.com. Efallai y gall y grŵp gyfarfod yn eiddo un neu ragor o aelodau'r rhwydwaith. Ystyriwch gynnal y cyfarfodydd mewn gwahanol leoliadau, yn eu tro, os yw hynny'n bosibl.
- **Arian.** Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu am logi ystafell, seinyddion, lluniaeth ysgafn ayb. Fodd bynnag, mae'r opsiynau eraill yn cynnwys y defnydd o lefydd cyfarfod yn ddi-dâl, a chynnig gwasanaethau ar ffurf ymarferol. Os oes angen i chi godi arian, ystyriwch godi ffi aelodaeth ond cofiwch y gall ffi atal rhai pobl rhag ymuno, a byddwch yn ymwybodol y bydd yn rhaid wrth drefniadau gweinyddol er mwyn rheoli arian.
- **Aelodau brwd.** Mae rhwydweithiau cadarn yn manteisio ar syniadau cronfa o aelodau brwd ac awyddus, a dibynnu arnynt i gyflawni'r gwaith er mwyn i'r rhwydwaith ffynnu. Ystyriwch sut y gall y rhwydwaith newydd feithrin y rhain o'r cychwyn cyntaf.

Y cyfarfod cyntaf

Gallai'r cyfarfod cyntaf fod yn gyfarfod agored, y gallech chi wahodd darpar aelodau penodol iddo, neu gyfarfod yr ydych yn gwahodd y rhai sydd gennych mewn golwg i ffurfio craidd y rhwydwaith. Pa un bynnag a ddewiswch, mae'n syniad da paratoi rhai pethau ymlaen llaw ar gyfer y cyfarfod. Dyma rai gweithgareddau paratoadol pwysig:

- **Paratowch strwythur ar gyfer y cyfarfod.** Yn ystod y cyfarfod cyntaf, bydd y grŵp newydd yn dechrau ffurfio. Gellwch helpu'r broses trwy gyflwyno'r cwestiynau allweddol y mae'r grŵp angen eu hateb. Dylai'r rhain ymdrin â meysydd fel:
    - Am beth mae eich rhwydwaith chi?
    - I bwy mae o?
    - Sut y bydd yr aelodau'n elwa?
    - Sut y bydd y rhwydwaith yn gweithredu e.e. amlder y cyfarfodydd, amseroedd y cyfarfodydd, ayb.

  Dylech feddu ar gyfres o benawdau yn barod i'w trafod a bod yn barod i wneud nodiadau gan gynnwys nodiadau gweithredu i'w dosbarthu yn dilyn y cyfarfod. Gall eich cyngor gwirfoddol sirol lleol eich helpu i roi trefn ar eich meddyliau.
- **Byddwch yn barod i wrando ar syniadau ac awgrymiadau.** Bydd gan y bobl a fydd yn mynychu'r cyfarfod cyntaf eu syniadau eu hunain ynghylch sut y dylai weithio a symud ymlaen. Cyn gynted ag y bydd y grŵp yn dod at ei gilydd am y tro cyntaf, bydd yn datblygu ei nodweddion ei hun ac yn tyfu mewn modd organig. Dylech ganiatáu i'r rhwydwaith fabwysiadu ei nodweddion ei hun.
- **Byddwch mewn sefyllfa i gasglu enwau a chyfeiriadau.** Bydd y manylion a gewch chi yn y cyfarfod cyntaf yn ffurfio craidd rhestr bostio'r rhwydwaith. Y ffordd rwyddaf yw anfon darn o bapur o amgylch y cyfarfod lle gall unigolion nodi eu manylion arno. Gallech ofyn iddynt ym mha feysydd y maent yn ymddiddori a/neu am wybodaeth ar y darn o bapur, er mwy helpu i greu darlun buan o gwmpas ac arbenigedd posibl y rhwydwaith.

- **Chwiliwch am bobl a allai fod yn chwaraewyr allweddol.** Bydd angen pobl awyddus a brwdfrydig ar y rhwydwaith a fydd yn ffurfio, er mwyn ei gadw i fynd. Chwiliwch am bobl o'r fath yn y cyfarfod cyntaf, ac ystyriwch gysylltu â nhw ychydig ddyddiau yn dilyn y cyfarfod i drafod eu parodrwydd i ymgymryd â rolau. Dyma rai o'r swyddogaethau y gallai rhwydwaith fod eu hangen:

    - rheolwr/wraig y rhestr aelodaeth
    - trefnydd lleoliadau
    - awdur y cylchlythyr/cyfathrebwr
    - trefnydd cyfarfodydd

  Nid oes raid i'r rolau hyn fod yn sefydlog ac nid oes raid eu haseinio i un unigolyn, ond mae angen iddynt gael eu perfformio, felly byddai dod o hyd i rywun sy'n barod i'w hysgwyddo am yr ychydig gyfarfodydd cyntaf yn ddefnyddiol iawn.

Cyfathrebu

Nid oes raid i aelodau'r rhwydwaith fynychu pob cyfarfod, bydd rhai pobl dim ond yn dewis i fynychu'r sesiynau sydd yn berthnasol iddynt. Fodd bynnag, dylid anfon hysbysiad iddynt o bob cyfarfod ynghyd â chofnodion, er mwyn iddynt wybod beth sy'n digwydd a beth sydd wedi digwydd mewn cyfarfodydd y maent wedi'u colli. Dylid dirprwyo'r cyfrifoldeb am gyflawni'r dasg hon i un person, er mwyn sicrhau y caiff y gwaith ei wneud yn rheolaidd.

Os yn bosibl, dylid pennu'r dyddiadau, y lleoliadau a'r pynciau sawl cyfarfod ymlaen llaw, er mwyn rhoi cyfle digonol i'r aelodau greu lle yn eu dyddiaduron. Gellir gwneud hyn mewn sawl ffordd, gan gynnwys ebost, os oes ebost at ddefnydd pob aelod.

Beth sy'n gwneud rhwydwaith llwyddiannus?

Mae rhwydweithiau, fel unrhyw grŵp arall sy'n rhannu diddordeb, angen momentwm a brwdfrydedd parhaus er mwyn ffynnu. Gall cynnal diddordeb fod yn gysylltiedig â sawl ffactor fel:

Rhannu diddordeb

Casgliadau o bobl sy'n rhannu'r un diddordeb yw rhwydweithiau. Gall y diddordeb hwnnw amrywio dros amser, ond mae'n bwysig bod y rhwydwaith yn cydnabod ac yn gwasanaethu'r diddordeb. Gallai'r diddordeb hwnnw fod yn seiliedig ar:

- leoliad daearyddol
- grŵp o gleientiaid
- ystyriaethau cyfreithiol a/neu ariannol

Hyblygrwydd

Mae rhai rhwydweithiau'n llwyddo trwy ddefnyddio un math o strwythur yn unig, er enghraifft cyfarfodydd ffurfiol rheolaidd gyda siaradwyr gwadd, a sesiynau holi ac ateb, neu sesiynau un prynhawn y mis i drafod pynciau o ddiddordeb cyffredin yn anffurfiol, neu gyfarfodydd ad hoc yn ôl yr angen.

Mae rhwydweithiau eraill yn cyfuno strwythurau, gan wahodd pobl o'r tu allan yn ôl y galw, ond gan ddefnyddio arbenigedd yr aelodau pan yn bosibl neu ddefnyddio rhwydwaith rhithwir e.e. e-bost neu gynadleddau fideo.

Nid oes un strategaeth benodol sy'n gweithio orau. Y peth allweddol yw bod yn hyblyg, a defnyddio dulliau sydd fwyaf addas i'r rhwydwaith a'i anghenion.

Datganiad o bwrpas

Mae'n bwysig fod gan rwydwaith gyfres datganedig o nodau, yr ailedrychir arnynt o bryd i'w gilydd a'u hadolygu os oes angen yng ngoleuni newid organig y rhwydwaith. Gallech deimlo hefyd y byddai'n briodol meddu ar god gweithredu, sy'n ymdrin â materion fel ymddygiad priodol a chyfrinachedd.

Mae adolygiad blynyddol lle caiff pawb eu hatgoffa o gyflawniadau'r rhwydwaith dros y flwyddyn, a lle gaiff y datganiad o nodau a'r codau gweithredu eu cadarnhau, yn ffordd dda o adnewyddu'r rhwydwaith. Gellid cyplysu hyn gyda digwyddiad cymdeithasol.

Mae angen adnoddau ar rwydwaith

Craidd rhwydwaith yw ei bobl a'i frwdfrydedd, ond mae ar rwydwaith llwyddiannus angen mathau eraill o adnoddau hefyd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- adnoddau ffisegol, er enghraifft, lle i gyfarfod
- adnoddau dynol, er enghraifft, pobl i symud y grŵp yn ei flaen ac ymgymryd â chyfrifoldebau sydd wedi'u diffinio
- adnoddau ar ffurf deunyddiau, er enghraifft, datganiadau o nodau a chod gweithredu

Gall bob un o'r rhain fod yn rhad ac am ddim neu, fel arall, bydd yn rhaid talu am eu cynhyrchu. Nid yw'r rhai y telir amdanynt, o anghenraid, yn well. Ystyriwch beth sy'n briodol i'ch rhwydwaith chi, a pha adnoddau sydd gan yr aelodau i'w cynnig neu y gallant fanteisio arnynt trwy eu cysylltiadau eu hunain.

Mae rhwydweithiau'n golygu rhwydweithio

Gall rhwydweithiau darparu cyfle i rannu ymarfer da, a hefyd ffordd i rannu problemau ac atebion. Mae'n bwysig i wneud yn fawr o wybodaeth a phrofiad aelodau'r rhwydwaith. Mae'r strategaethau ar gyfer cyflawni hyn yn cynnwys:

- Gwneud yn siŵr bod gan aelodau'r rhwydwaith gyfleoedd i ddod at ei gilydd yn anffurfiol. Ceisiwch ddyfeisio dulliau sy'n eu galluogi i ddysgu am ei gilydd – er enghraifft rhannu rhestr aelodaeth sy'n datgan eu rôl (au), ac unrhyw feysydd o wybodaeth neu brofiad y maent yn barod i'w rhannu.
- Annog y defnydd o arbenigedd mewnol. Wrth gynnal cyfarfod ar bwnc penodol, ystyriwch ofyn i aelod o'r rhwydwaith sy'n gwybod rhywbeth am y pwnc i siarad, yn hytrach na recriwtio rhywun o'r tu allan i'r rhwydwaith.

Ymgynghorwch â'r aelodau

Os ydynt am ffynnu, mae angen i'r rhwydweithiau ddiwallu anghenion eu haelodau. Gellir adnabod yr anghenion hyn trwy ymgynghori rheolaidd. Os yw rhwydwaith yn gymharol fawr, ac nad yw'r aelodau'n mynychu'r holl gyfarfodydd, ystyriwch gynnal arolwg ysgrifenedig cryno i ganfod eu barn. A chofiwch ei gwneud yn glir bob amser eich bod yn barod i wrando ar farn aelodau oddi mewn ac oddi allan i gyfarfodydd.

Gadewch i'r grŵp benderfynu

Perchnogion y rhwydwaith yw'r aelodau, felly dylai cyfarfodydd cael eu rhedeg yn gydweithredol gyda disgwyliad ar bawb i gyfrannu. Dylai'r grŵp cyfan benderfynu ar bynciau'r cyfarfodydd pan fo hynny'n bosibl. Os mai lleiafrif yn unig sy'n dangos diddordeb mewn pwnc penodol, ystyriwch gynnal cyfarfod is-grŵp.

Gwybodaeth bellach

Cyfranogaeth Cymru
Mae pecyn ar sefydlu neu arolygu rhwydwaith, ac mae hi ar gael o www.participationcymru.org.uk.

Trusteenet
www.trusteenet.org.uk

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych
Canolfan Naylor Leyland , Stryd y Ffynnon , Rhuthun , Sir Dinbych , LL15 1AF
Elusen Gofrestredig *1054322*

Ffôn: 01824 702441 office@dvsc.co.uk
Ffacs: 01824 705412 www.dvsc.co.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:08/06/2011

Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk